

---

## **Nation Radio (Ceredigion)**

Cais i newid Fformat

---

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2019

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Mai 2019

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	1
2. Manylion a gwybodaeth gefndir	3
3. Ystyried y cais a safbwynt rhagarweiniol Ofcom	6

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	10
A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	13
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	14
A4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad	15
A5. Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal trwydded Ceredigion	16

# 1. Trosolwg

Mae Fformat gorsaf radio masnachol yn nodi'r math o allbwn darlledu y mae'n ofynnol iddi ei chyflwyno, ac mae'n ffurfio rhan o'i thrwydded.

Ail-hysbysebwyd y drwydded radio masnachol analog ar gyfer Ceredigion yn llawn gan Ofcom ym mis Ebrill 2018. Dyfarnwyd y drwydded ym mis Rhagfyr 2018 i'r trwyddedai a oedd eisoes yn dal y drwydded (a'r unig ymgeisydd), sef Radio Ceredigion Limited ('RCL'). Roedd ail gais RCL yn seiliedig ar gyfnewid y gwasanaeth 'Radio Ceredigion' presennol am drosglwyddiad o'r gwasanaeth a ddarperir o dan drwydded ranbarthol De Cymru, Nation Radio, sydd ym meddiant Nation Radio Limited. Mae Nation Radio Limited ac RCL yn rhan o'r un grŵp corfforaethol (Nation Broadcasting).

Fodd bynnag, ers dyfarnu'r drwydded, mae RCL wedi penderfynu y byddai'n well ganddo barhau i ddarlledu gwasanaeth sy'n cyd-fynd yn agosach â gwasanaeth presennol Radio Ceredigion pan fydd trwydded newydd Ceredigion yn dechrau ar 1 Mehefin 2019. Er mwyn gallu gwneud hyn, mae RCL wedi cyflwyno Cais Newid Fformat i newid y Fformat y mae wedi ei ddrafftio ar gyfer ei ail gais am drwydded.

Pan fydd cais i newid Fformat yn gyfystyr â newid sylweddol i gymeriad y gwasanaeth, mae'r cais yn destun ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cais a gafwyd gan RCL, a safbwynt rhagarweiniol Ofcom ar y cais.

## Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno

Mae Ofcom o blaid cymeradwyo'r Cais am Newid Fformat a gyflwynwyd gan RCL.

Mae RCL yn dymuno newid 'Cymeriad Gwasanaeth' y Fformat a gyflwynwyd yn ei ail gais am drwydded Ceredigion ("*Gorsaf gerddoriaeth i Gymru ar gyfer cynulleidfa eang dros 15 oed*") i "*Gorsaf gerddoriaeth i Geredigion ar gyfer cynulleidfa eang dros 15 oed*".

Yn ogystal, mae RCL yn dymuno gwneud y newidiadau a ganlyn i isafswm yr oriau o raglenni lleol y mae'n ofynnol iddo eu darlledu, a'r trefniadau rhannu rhaglenni a chydleoli, yr oedd yn eu cynnig yn ei ail gais am drwydded:

- Gellir rhannu'r holl oriau rhaglenni a wneir yn lleol gyda'r trwyddedau radio masnachol lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â thrwydded De Cymru.
- Rhaid darparu newyddion lleol (h.y. Ceredigion) o leiaf bob awr yn ystod oriau brig yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn. Mae hyn yn disodli'r ymrwymiad blaenorol i ddarparu newyddion cenedlaethol am Gymru bob awr o leiaf yn ystod oriau brig.
- Oriau rhaglennu lleol i gael eu lleihau o 21 awr y diwrnod (gan gynnwys brecwast a brecwast ar benwythnosau) i saith awr y diwrnod yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, a phedair awr yn ystod y dydd ar benwythnosau.

Rydym wedi cymryd safbwynt rhagarweiniol ar y cais ac rydym yn bwriadu ei ganiatáu. Fodd bynnag, rydym yn ceisio barn ar y cais cyn i ni wneud penderfyniad. Daw'r ymgynghoriad i ben am **5pm ddydd Gwener 10 Mai 2019**.

## 2. Manylion a gwybodaeth gefndir

- 2.1 Mae'r drwydded ar gyfer pob gwasanaeth radio masnachol analog lleol yn cynnwys 'Fformat' sy'n disgrifio'r math o wasanaeth rhaglenni y mae'n ofynnol i'r trwyddedai ei ddarparu.
- 2.2 Gall trwyddedeion wneud cais i Ofcom newid eu Cymeriad Gwasanaeth ('ceisiadau newid fformat') yn unol ag amodau eu trwydded a darpariaethau statudol perthnasol.
- 2.3 Lanswyd Radio Ceredigion ym 1992, ac mae'r trwyddedai (Radio Ceredigion Limited neu 'RCL') wedi bod yn eiddo i Nation Broadcasting Limited (Town & Country Broadcasting Limited, gynt) ers 2010. Mae 72,008 o oedolion (15+ oed) yn Nalgylch Mesuradwy'r drwydded.
- 2.4 Daw trwydded bresennol Ceredigion i ben ar 31 Mai 2019. Ail-hysbysebwyd y drwydded ar gyfer Ceredigion yn llawn gan Ofcom ym mis Ebrill 2018 oherwydd bod y trwyddedai wedi rhoi gwybod i Ofcom nad oedd yn dymuno ymrwymo i Fformat bresennol Radio Ceredigion ar gyfer tymor newydd y drwydded.
- 2.5 Dyfarnwyd y drwydded a ail-hysbysebwyd ym mis Rhagfyr 2018 i'r trwyddedai presennol (a'r unig ymgeisydd), RCL. Roedd cais RCL yn seiliedig ar gynnig, ar gyfer tymor newydd y drwydded, i ddisodli gwasanaeth Radio Ceredigion gyda throsglwyddiad o drwydded ranbarthol De Cymru, Nation Radio, sydd ym meddiant Nation Radio Limited, ac sydd, fel RCL, yn eiddo i Nation Broadcasting Limited.
- 2.6 Fodd bynnag, ers dyfarnu'r drwydded, mae RCL wedi penderfynu y byddai'n well ganddo barhau i ddarlledu gwasanaeth sy'n cyd-fynd yn agosach â gwasanaeth presennol Radio Ceredigion pan fydd trwydded newydd Ceredigion yn dechrau ar 1 Mehefin 2019.
- 2.7 Gan hynny, mae RCL wedi cyflwyno Cais Newid Fformat i Ofcom i ddiwygio Fformat 'Nation Radio (Ceredigion)' a gyflwynodd ar gyfer ei ail gais llwyddiannus am y drwydded.
- 2.8 'Cymeriad y Gwasanaeth' a ddrafftwyd ar gyfer yr ail gais am drwydded oedd: "*Gorsaf gerddoriaeth i Gymru ar gyfer cynulleidfa eang dros 15 oed*".
- 2.9 Dyma'r Cymeriad Gwasanaeth newydd a gynigir gan y Trwyddedai: "*Gorsaf gerddoriaeth i Geredigion ar gyfer cynulleidfa eang dros 15 oed*".
- 2.10 Ceir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig eraill i'r Fformat yn y tabl isod:

	<b>Fformat a gyflwynwyd ar gyfer ail gais am y drwydded</b>	<b>Amrywiad fformat arfaethedig</b>
<b>Oriau wedi eu gwneud yn lleol</b>	O leiaf 21 awr y diwrnod (rhaid cynnwys amser brecwast ac amser brecwast ar benwythnosau)	O leiaf 7 awr y diwrnod yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

<b>Lleoliad y stiwdio</b>	Cymru	Ardal wedi ei chymeradwyo gan Ofcom yng Nghymru
<b>Trefniadau rhannu rhaglenni</b>	Pob rhaglen yn cael ei rhannu â thrwydded De Cymru.	Gellir rhannu pob allbwn rhaglennu â thrwydded De Cymru neu'r trwyddedau ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, yn amodol ar fodloni gofynion cymeriad y gwasanaeth.
<b>Bwletinau newyddion lleol</b>	Newyddion cenedlaethol Cymru bob awr o leiaf yn ystod oriau brig	O leiaf bob awr yn ystod oriau brig yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn. Ar adegau eraill dylid darlledu newyddion y Deyrnas Unedig, newyddion y gwledydd a newyddion rhyngwladol.

## Amodau trwydded a fframwaith statudol

- 2.11 Mae amodau sydd wedi eu cynnwys yn nogfen RCL yn unol ag adran 106 (1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) (y 'Ddeddf'), yn darparu y caiff Ofcom gydsynio i newid Fformat (sy'n groes i gymeriad y gwasanaeth trwyddedig) dim ond pan fyddwn yn fodlon bod o leiaf un o'r pum maen prawf statudol a ganlyn yn cael ei fodloni:
- na fyddai'r gwriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol<sup>1</sup>;
  - na fyddai'r gwriad yn cyfyngu ar amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;
  - yn achos trwydded leol, byddai'r newid o fudd i gynnal neu hybu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn yr ardal neu'r gymdogaeth; neu
  - yn achos trwydded leol, bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt i'r newid; neu
  - y byddai, yn achos trwydded leol, (i) y gwriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).
- 2.12 O dan adran 106ZA y Ddeddf, mae'n ofynnol i Ofcom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newid Fformat arfaethedig oni bai bod maen prawf (a) neu (e) wedi ei fodloni. Lle mae

<sup>1</sup> Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried y dewis o ddeunydd llafar a cherddoriaeth mewn rhaglenni wrth benderfynu beth yw cymeriad y gwasanaeth dan sylw.

maen prawf (b) yn berthnasol yng nghyd-destun cais newid Fformat ar gyfer gwasanaeth radio lleol (fel yn yr achos hwn), nid yw gwasanaethau masnachol analog cenedlaethol neu ranbarthol, gwasanaethau DAB lleol neu wasanaethau'r BBC yn cael eu cyfrif fel 'gwasanaethau radio annibynnol perthnasol' (yn rhinwedd adran 106 (7) o'r Ddeddf). Dim ond gwasanaethau radio masnachol a chymunedol analog lleol sy'n cael eu hystyried wrth bwysu a mesur a fyddai'r amrywiaeth o raglenni yn cael ei leihau.

- 2.13 Mae'r ddeddfwriaeth yn gadael y penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu newid, hyd yn oed os yw un o'r meini prawf uchod yn cael ei fodloni, i ddisgresiwn Ofcom. Mae'n bosibl y bydd rhesymau (yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na fydd Ofcom yn cydsynio i'r newid arfaethedig, er bod un o'r meini prawf statudol yn cael ei fodloni. Ar ein gwefan, rydym wedi nodi meini prawf a ddefnyddiwn i'n helpu i farnu a ddylid cymeradwyo cais o'r fath.<sup>2</sup> Rydym hefyd yn ystyried ein dyletswyddau statudol cyffredinol, gan gynnwys:
- a) ein prif ddyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr;
  - b) ein dyletswydd i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (o'u cymryd yn gyffredinol) o ansawdd uchel ac wedi eu cyfrifo i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau (gan gynnwys rhychwant ac amrywiaeth gwasanaethau radio lleol yn benodol), yn ogystal â chynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwahanol wasanaethau; ac
  - c) ein dyletswydd i ystyried diddordebau gwahanol pobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig ynddi a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

---

<sup>2</sup> Yn [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf)

## 3. Ystyried y cais a safbwynt rhagarweiniol Ofcom

- 3.1 Mae Atodiad 5 yn cynnwys cais newid fformat RCL. Gwnaed y cais ar y sail bod meini prawf (a) a (b) o adran 106 (1A) o'r Ddeddf yn cael eu bodloni: na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, ac na fyddent yn culhau'r amrywiaeth o raglenni sydd ar gael drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yng Ngheredigion.
- 3.2 Am y rhesymau sy'n dilyn, rydym yn bwriadu caniatáu cais RCL. Rydym yn ceisio sylwadau ymatebwyr ar ein safbwynt rhagarweiniol.

### Safbwynt rhagarweiniol

#### Newid arfaethedig i gymeriad y gwasanaeth a darpariaeth newyddion lleol

- 3.3 Rydym yn dechrau drwy nodi bod hwn yn achos anarferol gan nad yw'r drwydded newydd, fel y'i hail-ddyfarnwyd i RCL, wedi dod i rym eto, ac mae'r newid arfaethedig yn golygu gwneud y gwasanaeth yn fwy tebyg i'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan RCL (ac y bydd hynny'n wir tan 31 Mai 2019). Fodd bynnag, rydym yn cymharu'r gwasanaeth diwygiedig â'r gwasanaeth a fyddai wedi dechrau darlledu ar 1 Mehefin 2019, yn hytrach na gwasanaeth Ceredigion sy'n bodoli wrth fynd i'r wasg.
- 3.4 Ym marn ragarweiniol Ofcom, byddai'r newid i gymeriad y gwasanaeth ac ymrwymiad i ddarparu newyddion lleol (ardal Ceredigion) yn newid yn sylweddol beth oedd cymeriad y gwasanaeth a gynigiwyd yn ail gais RCL am drwydded. Mae hyn oherwydd y byddai'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig o dan y fformat diwygiedig yn benodol ar gyfer Ceredigion, gydag ymrwymiad i ddarparu newyddion lleol ar adegau prysur. Mae hyn yn cynrychioli newid sylweddol o'r Fformat a gyflwynwyd yn ail gais RCL am drwydded, sef darparu trosglwyddiad o drwydded ranbarthol De Cymru, Nation Radio, heb ymrwymiad penodol i ddarparu cynnwys lleol ar gyfer ardal Ceredigion. Ar y sail honno, felly, ein barn ni yw nad yw maen prawf (a) yn adran 106ZA yn cael ei fodloni.
- 3.5 At ddibenion ystyried a yw maen prawf (b) yn adran 106ZA yn cael ei fodloni, mae angen i ni yn gyntaf ystyried Fformatau'r darllediadau gwasanaethau radio analog lleol eraill yn ardal Ceredigion.
- 3.6 Yr unig orsaf radio masnachol arall sy'n darlledu i'r mwyafrif o ardal Ceredigion yw Heart (Gogledd a Chanolbarth Cymru), sydd â'r Cymeriad Gwasanaeth a ganlyn: "*Gorsaf gerddoriaeth boblogaidd prif ffrwd gwasanaeth llawn ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru, gan dargedu pobl 25-54 oed yn bennaf, gan drin newyddion, deunydd llafar, gwybodaeth am Gymru, chwaraeon a rhyngweithio â gwrandawyr fel cynhwysion pwysig, ynghyd â newyddion 24 awr.*"



3.7 Dyfarnwyd trwydded i orsaf gymunedol, Radio Aber, i wasanaethu ardal Aberystwyth yn 2018, ond nid yw wedi dechrau darlledu eto. Dyma gymeriad y gwasanaeth a ddarperir yng nghais yr orsaf am drwydded:

*“Ein prif gymuned darged fydd pobl leol sy'n byw ac yn gweithio yn ein hardal ddarlledu, gyda chymunedau targed eilaidd yn boblogaeth fawr o fyfyrwyr a'r boblogaeth dwristiaeth. Prif bwrpas y gwasanaeth yw cysylltu cymunedau gwledig anghysbell â chanol trefol Aberystwyth a'r ffordd arall, hyrwyddo busnes lleol a chynyddu cefnogaeth a chyfathrebu rhwng cymunedau. Ein prif weithgareddau fydd darlledu deunydd lleol, cynnwys pobl leol yn y gwasanaeth, ffurfio canolfan gyfathrebu rhwng amgylcheddau gwledig amrywiol, cefnogi cerddoriaeth a chelfyddydau lleol, a hyrwyddo busnes lleol.”*

3.8 Ein safbwynt rhagarweiniol am y cais o dan faen prawf (b), na fyddai'r ymadawiad yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael yn yr ardal, yw y byddai'r newid arfaethedig i gymeriad y gwasanaeth a'r ymrwymiad i ddarparu bwletinâu newyddion lleol (ardal Ceredigion) yn ymestyn - yn hytrach nag yn culhau - yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael i wrandawyr yn yr ardal. Mae hyn oherwydd bod ardal Ceredigion yn cael ei gwasanaethu'n barod gan orsaf cerddoriaeth prif ffrwd sy'n gwasanaethu ardal ddaeryddol ehangach (Heart Canolbarth a Gogledd Cymru), y mae ei Fformat yn gofyn iddi *“drin newyddion, deunydd llafar a gwybodaeth am Gymru fel cynhwysion pwysig.”* Gan hynny, yn ein barn ni, byddai presenoldeb parhaus gorsaf radio ym marchnad Ceredigion, lle mae gofyn darparu newyddion a gwybodaeth leol yng Ngheredigion (fel yn achos gwasanaeth Radio Ceredigion ar hyn o bryd) yn cynyddu amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael yn fwy nag y byddai'r Fformat 'Nation Radio (Ceredigion)' a gynigiwyd yn ail gais RCL am trwydded wedi ei wneud.<sup>3</sup>

3.9 Rydym yn cydnabod y bydd yn ofynnol i Radio Aber, pan ddaw ar yr awyr, ddarparu deunydd sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer ardal Aberystwyth. Fodd bynnag, dim ond rhan ogleddol sir Ceredigion fydd yr orsaf yn ei chwmpasu, sy'n golygu na fydd yn cyrraedd canolfannau poblogaeth eraill yn Ne Ceredigion fel Aberteifi, a Chastell Newydd Emlyn.

3.10 Gan hynny, ein safbwynt rhagarweiniol yw y byddai'r newid arfaethedig i gymeriad y gwasanaeth a darparu bwletinâu newyddion lleol, gyda'i gilydd, yn bodloni maen prawf (b).

3.11 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.13, mae'r ddeddfwriaeth Newid Fformat yn galluogi Ofcom i benderfynu a ddylid caniatáu newid ai peidio, hyd yn oed os bodlonir un o'r meini prawf statudol (fel sy'n digwydd yma, yn ein safbwynt rhagarweiniol). Yn y canllawiau polisi Newid Fformat a gyhoeddwyd gennym,<sup>4</sup> rydym wedi nodi bod yr amser a aeth heibio ers dyfarnu'r drwydded yn ffactor perthnasol, gan fod addasu i gynulleidfaoedd sy'n newid dros amser yn ddealladwy, tra gall newid yn fuan ar ôl dyfarnu fod yn anghyson â'r broses drwyddedu lle mae gorsafoedd yn diffinio eu Fformatau eu hunain yn eu cais am drwydded. Fe wnaethom nodi y byddem yn *“disgwyl i achos cryfach gael ei wneud dros*

---

<sup>3</sup> Cydnabuwyd yr agwedd hon ar gais RCL gan Ofcom yn natganiad ôl-ddyfarniad Ceredigion, sydd ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/formats-content> a oedd yn nodi *“Hefyd, roedd y rheini sy'n penderfynu yn credu y byddai'r gwasanaeth Nation Radio arfaethedig yn llai tebygol o ehangu'r dewis ar gyfer gwrandawyr yn ardal Ceredigion na'r gwasanaeth Radio Ceredigion presenol.”*

<sup>4</sup> [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf)

newidiadau y gofynnir amdanynt o fewn dwy flynedd i'w lansio" ac y byddem yn "annhebygol o ganiatáu newid llwyr i wasanaeth o fewn dwy flynedd".

- 3.12 Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y cais hwn yn achos eithriadol. Mae ceisiadau am newid fformat fel arfer yn ceisio ehangu allbwn gorsaf radio er mwyn denu cynulleidfa ehangach, addasu i newid demograffig er mwyn canolbwyntio ar gynulleidfa ychydig yn wahanol, neu wanhau neu ddileu rhai o'r ymrwymadau Fformat gwreiddiol a wnaed yn y cais am drwydded. Yn yr achos hwn, fel y nodwyd yn barod, mae cais RCL yn ceisio gwneud y gwasanaeth yn fwy penodol yn ddaearyddol ac yn fwy perthnasol i wrandawyr yng Ngheredigion drwy ddarparu newyddion a gwybodaeth leol. Yn bwysig, mae agweddau allweddol ar 'Gymeriad y Gwasanaeth' a ddrafftwyd ar gyfer dyfarnu'r drwydded yn aros yr un fath, gan y bydd y gwasanaeth yn parhau i fod yn "*orsaf gerddoriaeth i oedolion dros 15 oed*". Yn hytrach, mae'r newid a geisir gan RCL yn ymwneud â maint a natur ardal sylw golygyddol yr orsaf, ac nid demograffeg targed na fformat rhaglennu'r gwasanaeth. Yn ogystal, mae'r newid Fformat yn mynd yn ôl at rywbeth sy'n fwy tebyg i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd.
- 3.13 Mae'r Fformat newydd arfaethedig hefyd yn llawer mwy cyson â chanllawiau lleolrwydd cyhoeddedig Ofcom, sy'n nodi'r math o gynnwys (er enghraifft, newyddion lleol) rydym fel arfer yn disgwyl iddo gael ei gyflwyno gan ddeiliaid trwydded radio lleol.
- 3.14 Felly, wrth ystyried y cais mewn cymhariaeth â'r meini prawf polisi a gyhoeddwyd gennym, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol, nid ydym yn bwriadu gwrthod y cais hwn ar sail "yr amser sydd wedi mynd heibio ers dyfarnu'r drwydded."

### **Agweddau eraill ar y newid Fformat y gofynnwyd amdano gan RCL**

- 3.15 Mae'r newidiadau i'r Fformat y gofynnwyd amdanynt gan RCL o ran cydleoli, rhannu rhaglenni ac oriau a wnaed yn lleol yn gyson â chanllawiau lleolrwydd a gyhoeddwyd gan Ofcom, ac fel arfer byddent yn cael eu cymeradwyo heb ymgynghori ar y sail bod y canllawiau lleolrwydd eisoes wedi bod destun ymgynghoriad cyhoeddus.
- 3.16 Fodd bynnag, gan fod y newidiadau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r newid arfaethedig i gymeriad y gwasanaeth a darparu newyddion lleol yn yr achos hwn, ac oherwydd ein maen prawf polisi cyhoeddedig o ran "yr amser sydd wedi mynd heibio ers dyfarnu'r drwydded" rydym hefyd yn ymgynghori ar yr agweddau hyn ar y cais.
- 3.17 O ran cais RCL i ddarlledu oriau rhaglenni wedi eu gwneud yn lleol o unrhyw le yn ardal gymeradwy Cymru, ein safbwynt rhagarweiniol yw ein bod yn fodlon mewn perthynas ag adran 106(1A)(e), ar y sail y byddai'r newid y gofynnwyd amdano, os cymeradwyir y newid, yn arwain at raglenni sydd wedi eu cynnwys yn y gwasanaeth trwyddedig yn cael eu gwneud mewn eiddo yn ardal gymeradwy Cymru. Roeddem o'r farn bod hwn yn gais technegol gan y trwyddedai yn y bôn i alinio'r Fformat â chanllawiau lleolrwydd diwygiedig Ofcom, o ystyried bod RCL eisoes, o dan y Fformat a ddrafftwyd ar gyfer y gystadleuaeth drwydded, yn ddigon hyblyg i ddarlledu'r gwasanaeth o unrhyw le yng Nghymru.
- 3.18 Rydym o blaid cymeradwyo, o dan adran 106(1A)(a), y newidiadau a gynigir gan RCL mewn perthynas â nifer yr oriau a wnaed yn lleol, ar y sail na fyddai'r gostyngiad yn nifer yr oriau

a wnaed yn lleol yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. Mae hyn oherwydd y byddai'r swm arfaethedig o oriau rhaglennu lleol a faint o newyddion lleol sy'n cael ei ddarparu yn gyson â'n canllawiau lleolrwydd diwygiedig<sup>5</sup>, ac oherwydd y byddem yn disgwyl i'r trwyddedai ddarparu gwasanaeth lleol sy'n cynnwys - yn ogystal â'r lefel o'r newyddion a nodwyd yn ei Fformat - digon o ddeunydd lleol arall i gyflwyno cymeriad y gwasanaeth, waeth beth yw tarddiad y cynnwys sy'n cael ei ddarparu. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd holl allbwn Radio Ceredigion yn parhau i gael ei ddarparu o stiwdios yn St Hilari ym Mro Morgannwg. Y rheswm am hyn yw bod Ofcom eisoes wedi rhoi caniatâd yn nhrwydded Radio Ceredigion i ddarparu ei rhaglenni a wnaed yn lleol o St. Hilari, sef yr un man y mae Nation Radio yn darparu ei rhaglenni. Felly, o ystyried bod y Fformat a ddrafftwyd gan RCL ar gyfer ei ail gais am drwydded yn caniatáu iddo rannu'r holl oriau rhaglennu gyda Nation Radio, a lleoli'r stiwdio yn unrhyw le yng Nghymru, byddai'r 21 awr y diwrnod o raglenni lleol wedi eu darparu o St Hilari, ac nid o stiwdios yn ardal drwydded Ceredigion.

- 3.19 Roeddem hefyd yn fodlon mewn perthynas ag adran 106 (1A)(a) o ran y cais i rannu'r holl oriau rhaglennu lleol naill ai gyda thrwydded De Cymru ('Nation Radio') neu, fel arall, yr holl orsafoedd lleol eraill yng Nghymru sy'n eiddo i Nation Broadcasting yng Nghymru. Unwaith eto, mae'r cais hwn yn gyson â'n canllawiau lleolrwydd, a byddem yn disgwyl i'r trwyddedai ddarparu gwasanaeth lleol sy'n cynnwys digon o ddeunydd lleol i gyflawni'r cymeriad gwasanaeth gofynnol.

## Casgliad

- 3.20 Yn unol â hynny, ar ôl dod i'r farn ragarweiniol na fyddai'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt i gymeriad y gwasanaeth yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael drwy wasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yng Ngheredigion, ac am y rheswm polisi a amlinellwyd, rydym yn bwriadu cydsynio â chais RCL yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

---

<sup>5</sup> <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/localness>

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ddydd Gwener, 10 Mai 2019.
- A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o wefan Ofcom. Gallwch ddychwelyd y ffurflen drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w ategu, a fydddech chi cystal â'i anfon drwy e-bost i [jon.heasman@ofcom.org.uk](mailto:jon.heasman@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 10 Mai 2019.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi ei nodi arnynt:
- Jon Heasman  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA
- A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
  - Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymateb sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A1.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â John Heasman ar 020 7783 4509, neu drwy e-bost i [jon.heasman@ofcom.org.uk](mailto:jon.heasman@ofcom.org.uk).

## Cyfrinachedd

- A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk), cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>.

## Y camau nesaf

- A1.15 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ddiweddarach ym mis Mai, cyn i drwydded bresennol Ceredigion ddod i ben ar 31 Mai.
- A1.16 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates>

## Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth  
Ofcom  
Riverside House  
2a Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA  
E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)

## A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

### Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

#### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

#### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

#### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad Nation Radio (Ceredigion)

At (swyddog cyswllt yn Ofcom): Jon Heasman

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sy'n gyfrinachol yn eich barn chi, gan roi eich rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? \_\_\_\_\_

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi'r gallu i'ch adnabod)?

### DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi ei darparu gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw  Llofnod (os darperir copi papur)



## A4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- A4.1 Mae Ofcom yn gofyn am safbwyntiau ar y cais hwn i newid fformat. Gall Ofcom gydsynio i wro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth trwyddedig os ydym yn fodlon y bodlonir o leiaf un o'r meini prawf yn Adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â phob agwedd ar y cais. Caiff y meini prawf hyn eu nodi ar dudalen 3 y ddogfen ymgynghori hon.
- A4.2 Yng ngoleuni'r ystyriaethau a nodir yn Adran 3 y ddogfen hon, rydym yn bwriadu cydsynio i wro oddi wrth gymeriad y drwydded a ail-ddyfarnwyd ar gyfer Ceredigion ar y sail y bodlonir maen prawf (b) yn Adran 106(1A) Ddeddf Ddarlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â'r cais i newid Fformat, ac nad oes sail polisi i wrthod y cais.

### **Cwestiwn 1:**

Gwahoddir ymatebwyr i wneud sylwadau ar pa un ai a ydynt yn cytuno â safbwynt rhagarweiniol Ofcom ac i lunio eu safbwyntiau a'u hymatebion gan gyfeirio at, neu yng nghyd-destun, y meini prawf statudol yn adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

## A5. Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal trwydded Ceredigion

### Gorsafoedd radio masnachol analog

Heart (Gogledd a Chanolbarth Cymru)

<http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000329ba4heart.htm>

### Gorsafoedd radio cymunedol analog

Radio Aber (Aberystwyth)

Dyfarwyd trwydded i Radio Aber ddarlledu i ardal Aberystwyth yng Ngheredigion. Nid yw'r orsaf ar yr awyr eto, ac nid yw ei thrwydded wedi cael ei rhoi eto, sy'n golygu nad yw ei 'Phrif Ymrwymadau' wedi cael eu cyhoeddi eto. Mae cais llwyddiannus yr orsaf am drwydded, sy'n cynnwys manylion ei hymrwymadau rhaglennu arfaethedig, ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0018/106128/Radio\\_Aber\\_application.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/106128/Radio_Aber_application.pdf)